Ger y lle tân yn Oriel Hir y Castell mae dau ffigwr bwrdd-dymi o fachgen a merch, a beintiwyd mae'n debyg yn Fflandrys yn gynnar yn yr 17eg ganrif.

Yn wreiddiol, ymddengys iddynt gael eu gosod ar y mur gyda styffylau a bachau, i greu persbectif ym mhen draw'r ystafell, neu i roi'r argraff fod y drws yn uwch.

Yn oes Fictoria fe'u defnyddid fel sgriniau tân a heddiw maent yn cynnig cyfle delfrydol i ddod wyneb yn wyneb â ffigyrau plant o'r gorffennol.

Trafodwch deuluoedd a phlant, dyddiadau a chenedlaethau, gan ddatblygu eu sgiliau dilyniant a defnyddio termau syml am dreigl amser. Gallai disgyblion greu eu siart achau eu hunain neu un ddychmygol. Bydd yn rhaid bod yn sensitif i straeon personol y disgyblion yn ystod y gweithgaredd hwn.

Gellir trefnu ymweliad â'r Castell sydd 8 milltir i'r de o Wrecsam, ynghyd â holi am y CD-rom, trwy gysylltu gyda'r Swyddog Addysg ar 01690 777701

GWEITHGAREDDAU

CYN YR YMWELIAD

Gofynnwch i'r disgyblion astudio ambell agwedd o'u bywydau eu hunain, fel sail cymharu gyda phlant yn yr 17eg ganrif.

Dillad:
Pa ddillad maent yn eu gwisgo?
Gallent wneud rhestr ohonynt, neu ddarlun ohonynt eu hunain yn eu hoff wisg.
Gêmau:
Pa gêmau maent yn eu chwarae?
Gellir trafod y rhain a llunio rhestr o'u ffefrynnau. Gellir defnyddio siart bar i'w cofnodi neu gellir defnyddio TG i'w storio a'u prosesu.
Bwyd:
Pa fwyd maent yn ei fwyta?
Pa brydau maent yn eu cael yn ystod y diwrnod? Yma, fel gyda dillad, gall pob disgybl gofnodi'r hyn sydd orau ganddynt.

YN YSTOD YR YMWELIAD

Dillad:
Gellir annog y disgyblion i gymharu dillad y ffigyrau gyda'u dillad hwy, a gwneud darluniau ohonynt. Gellir eu hannog i sylwi ar liw, ffit, a gwead y dillad, a thrafod a ydynt yn gyfforddus. A fyddent hwy'n gallu chwarae gêmau mewn dillad fel y rhain?
Gêmau:
Wedi gadael yr Oriel Hir ewch â'r disgyblion allan ac os yw'r tywydd yn caniatáu, dangoswch iddynt sut i chwarae rhai o gêmau'r 17eg ganrif. Efallai y bydd rhai, fel chwarae mwgwd y dall, chwarae mig ac orennau a lemwnau, yn gyfarwydd iddynt.
Bwyd:
Gall disgyblion ymweld â Neuadd y Gweision a thrafod gwaith y gweision yn paratoi a gweini bwyd. Efallai yr hoffai athrawon egluro y byddai rhai o'r gweision hyn yn ifanc iawn a chymharu eu ffordd o fyw gyda ffordd o fyw plant teulu'r Myddelton, sef perchnogion y Castell slawer dydd.

WEDI'R YMWELIAD

Gall disgyblion barhau i ddarganfod mwy am fywydau plant yn yr 17eg ganrif. Gofynnwch iddynt gyflwyno canlyniadau eu gwaith drwy chwarae rhan diwrnod ym mywyd plentyn yn yr 17eg ganrif, neu mewn "collage" yn dangos y gwahanol weithgareddau y byddai plant wedi eu gwneud yn ystod y dydd. Gellid chwarae cerddoriaeth o'r 17eg ganrif, sydd ar gael ar gasét neu CD, i gyd-fynd â'r gweithgareddau hyn.

Defnyddir y lluniau gyda chaniatad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol